

Cyflwyniad

01

Pob llun o Raglen Beilot Hwb i Drefi Cymru, Mawrth 2026.

Credyd: Creative Communities International, DCFW, Vale of Glamorgan Council.



Cyflwyniad

Fel rhan o waith Comisiwn Dylunio Cymru gyda Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â chreu lleoedd a'r Rhaglen Trawsnewid Trefi, rydym wedi datblygu'r pecyn hwn o ganllawiau ymarferol, templedi ac enghreifftiau i hyrwyddo a galluogi dinasyddion, cymunedau a busnesau i gymryd rhan weithredol yn y gwaith o weithredu Cynlluniau Creu Lleoedd. Mae'r adnoddau ar gael i bob awdurdod lleol yng Nghymru eu defnyddio i weithredu'r dull gweithredu yng nghanol eu trefi.

Gan fod gan lawer o ganol trefi Gynlluniau Creu Lleoedd ar waith neu'n dod i'r amlwg erbyn hyn, mae'n bwysig bod pobl lleol yn gallu gweld y cynlluniau'n cael eu rhoi ar waith yn gyflym, fel nad yw brwdfrydedd a chefnogaeth yn diflannu. Dylai cymunedau a busnesau lleol fod wedi cael eu cynnwys wrth ddatblygu'r Cynllun Creu Lleoedd, a byddant yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gyflawni prosiectau a gweithgareddau creu lleoedd effeithiol a thrawiadol. Mae prosiectau ac ymyriadau bach y gall cymunedau a busnesau lleol gymryd rhan ynddynt a helpu i'w cyflawni yn cynnig cyfleoedd ar gyfer manteision cyflym sy'n adeiladu momentwm, yn datblygu ymdeimlad o berchnogaeth ac yn hyrwyddo grymuso.

Cynhyrchwyd y pecyn adnoddau hwn gan Gomisiwn Dylunio Cymru i gefnogi a meithrin hyder o fewn timau awdurdodau lleol i alluogi cyfranogiad cymunedol a goresgyn y rhwystrau i gyflawni

prosiectau mantais gyflym sy'n cyd-fynd â gweledigaethau ac uchelgeisiau Cynlluniau Creu Lleoedd canol trefi.

Mae cynnwys y pecyn adnoddau hwn yn seiliedig ar adborth o weithdai peilot a gynhaliwyd gyda dau dîm awdurdod lleol yng Nghymru, yn ogystal ag ymchwil i arferion gorau o bob cwr o'r byd.

Cynnwys

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys y dogfennau adnoddau a ganlyn:

01	Cyflwyniad i'r pecyn adnoddau
02	Blaenoriaethu a threfnu prosiectau
03	Codi ymwybyddiaeth a chydlynw creu lleoedd
04	Canllawiau Map Ffordd
05	Templed Map Ffordd
06	Cyfathrebu, rhwydweithiau a gwirfoddolwyr
07	Canllaw cyllido
08	Canllaw briffio creu lleoedd creadigol
09	Templed briff creu lleoedd creadigol
10	Astudiaeth achos: Rhaglen Beilot Hwb i Drefi Cymru
11	Adnoddau a deunydd darllen ychwanegol

Defnyddio'r adnoddau

Y peth cyffrous am greu lleoedd yw bod pob lle yn wahanol, gyda'i hunaniaeth unigryw ei hun a set o gyfleoedd a chyfyngiadau. Gan hynny, ni ellir cael un fformiwla na phroses gam wrth gam y gellir ei dilyn ym mhob senario. Mae'r adnoddau hyn wedi cael eu cynhyrchu er mwyn bod yn hyblyg a gallu eu haddasu. Mae rhai dogfennau yn y pecyn adnoddau hwn yn rhoi arweiniad ar brosesau arferion gorau a ffyrdd o weithio. Mae enghreifftiau a thempledi y gellir eu copïo a'u haddasu i weddu i bob lle neu sefyllfa unigryw. Mae astudiaeth achos yn rhannu gwersi o Raglen Beilot Hwb i Drefi Cymru am Wythnos, a welodd dreial Creative Communities International a dull creu lleoedd ystwyth mewn tair tref ledled Cymru. Ceir hefyd gyfeiriadau a dolenni at waith ymchwil, canllawiau a deunydd darllen pellach a allai fod yn ddefnyddiol. Ni fydd yr holl ganllawiau'n berthnasol i bob lle neu brosiect.